

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	10/07/2020
Pwnc / Subject:	Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cytuno â Llywodraeth Cymru na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol o bosibl yn gallu cydymffurfio â rhai gofynion statudol yn ystod y cyfnod hwn pan rydym i gyd yn ymateb i bandemig y coronafeirws, Covid-19. Mae Estyn yn cytuno â'r holl egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru'n cynnig eu rhoi ar waith wrth ddiwygio rheoliadau a fydd yn addasu neu'n datgymhwyso nifer o ofynion adrodd cyfredol mewn ysgolion. Trwy lacio'r gofynion adrodd mewn ysgolion, bydd Llywodraeth Cymru'n gostwng y baich gweinyddol ar y rhai sy'n gyfrifol.

Diddymu 'Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru)'

Mae Estyn yn cytuno bod y tarfu difrifol ar addysg dros y misoedd diwethaf wedi gwneud asesiadau, profion ac arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon yn anghynialadwy. Gan nad yw data cyrhaeddiad a phresenoldeb eleni naill ai ar gael neu ni ellir cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol, mae angen ystyried hynny'n ofalus hefyd o ran adrodd. Felly, cytunwn ei bod yn amhriodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion adrodd yn erbyn targedau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon na phennu targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn seiliedig ar ganlyniadau a all fod yn annibynadwy. Gan fod y cylch pennu targedau yn digwydd dros gylch tair blynedd, cytunwn fod goblygiadau'r amharu presennol ar ddata perfformiad ac absenoldeb yn ei gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosibl, i ysgolion adolygu, cadarnhau ac adrodd yn erbyn targedau a bennwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â gosod, adolygu a chadarnhau targedau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae Estyn yn cytuno bod diddymu'r Rheoliadau Targedau yn gam synhwyrol i'w gymryd. Er y bydd diddymu'r gofyniad hwn, o bosibl, yn galluogi ysgolion i gynnal eu hunanwerthuso a'u blaengynllunio yn y flwyddyn academaidd nesaf yn briodol ac yn effeithiol, gall fod ar arweinwyr angen canllawiau ychwanegol i'w cynorthwyo nhw i wneud hyn. Mae'n dda bod trefniadau gwerthuso a gwella wrthi'n cael eu datblygu er mwyn cydweddu â'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac i bennu'r dull gweithredu o ran blaenoriaethau gwella ysgolion.

Diwygio 'Adroddiadau Penaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011'

Mae Estyn yn cytuno y bydd y sefyllfa bresennol sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ei gwneud hi'n anodd i benaethiaid ddarparu adroddiadau ystyrion a dibynadwy i bob rhiant neu ddisgybl sy'n oedolyn, ar gyflawniadau addysgol disgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Cytunwn y gall fod yn anodd iddynt hefyd lunio adroddiadau ysgrifenedig cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Mae Estyn yn cytuno mewn egwyddor fod dyletswyddau penaethiaid wedi'u cyflawni os ydynt wedi gwneud "ymdrechion rhesymol" i gydymffurfio â'u dyletswyddau. Mae'r ymadrodd "ymdrechion rhesymol" braidd yn amwys, a bydd angen darparu enghreifftiau ar ei gyfer i osgoi camddealltwriaeth. Awgrymwn fod penaethiaid yn cael canllawiau sy'n cynnwys y gofynion lleiaf.

Mae Estyn yn cytuno bod angen i'r gofyniad i ddarparu adroddiad addas i ymadawyr ysgol fod yn ddyletswydd absoliwt, fel nad yw'r garfan hon o ddysgwyr o dan anfantais eleni.

Diwygio 'Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion")'

Mae Estyn yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i ganiatáu i awdurdodau lleol (yn eu prosiectws cyfansawdd) ac ysgolion (yn eu prosiectws unigol) beidio â chyhoeddi data ar absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn perthynas â'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/2020.

Diwygio 'Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad")'

Oherwydd bod ysgolion wedi'u cau yn ystod y cyfyngiadau ar symud oherwydd pandemig Covid-19, mae Estyn yn cytuno y bu'n anodd, neu'n amhosibl, i ysgolion ymgymryd ag asesiadau priodol athrawon yn ystod tymor yr haf 2019/20. Mae'n cytuno bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo casglu data statudol yn un synhwyrol o dan yr amgylchiadau. Mae Estyn yn cytuno bod diwygio rheoliadau i ddileu'r dyletswyddau ar gyfrif llywodraethol ac awdurdodau lleol i ddarparu data, y naill i awdurdodau lleol, a'r llall i Weinidogion Cymru, ar ganlyniadau asesiadau athrawon ac absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2019/20, yn synhwyrol. Yn ogystal, mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i gadw'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gael canlyniadau cymwysterau a gymeradwywyd, at ddibenion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â pherfformiad ysgol nac atebolrwydd yr ysgol.

Diwygio 'Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol")'

Er y bydd y ddyletswydd statudol ar gyfrif llywodraethol i lunio adroddiad yn parhau, mae Estyn yn cytuno â'r cynnig y byddai'n amhriodol i adroddiadau a gaiff eu llunio mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20 gynnwys data perfformiad a phresenoldeb, am na ellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae Estyn yn cytuno y dylai Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol gael eu diwygio i adlewyrchu hyn.

Mae Estyn yn cytuno y dylai'r wybodaeth ganlynol (lle y bo'n briodol) gael ei datgymhwyso/ei heithrio mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20:

- y crynodeb diweddaraf o berfformiad ysgol uwchradd (SSSP);
- nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol; ac
- unrhyw wybodaeth mewn perthynas â thargedau perfformiad ac absenoldeb, gan gynnwys gwelliannau sydd wedi'u pennu gan y corff llywodraethol o ran perfformiad dysgwyr, neu ar gyfer gostwng lefelau absenoldeb.